

Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol a gynhaliwyd ddydd Mercher 14 Mehefin, 2023 12.00 i 1:30pm yn Ystafelloedd Cynadledda C a D, Tŷ Hywel a thrwy Microsoft Teams

Yn bresennol ac ymddiheuriadau: Gweler y rhestrau atodedig

Croeso a chyflwyniadau: Croesawodd Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd) y cyfranogwyr i'r cyfarfod.

Busnes Cyfarfod Blynyddol

Adroddiad y Cadeirydd

Adroddodd y Cadeirydd ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu argymhellion adolygiad y Grŵp o'r Ddeddf Teithio Llesol, gan dynnu sylw at ddiwygio'r Bwrdd Teithio Llesol a gwaith ar Gynllun Cyflawni Teithio Llesol newydd. Addawodd y byddai'n dod ag adroddiad llawn ar y cynllun cyflawni i gyfarfod yn y dyfodol. Bu cynnydd hefyd gydag argymhellion Phil Jones ar newidiadau rheoleiddio a allai fod o fudd i deithio llesol ac roedd cyfarfod wedi'i drefnu gyda Trafnidiaeth Cymru i drafod y broblem o beidio â chaniatáu beiciau ar fysiau sy'n gweithredu yn lle trenau. Cyhoeddodd y byddai'r grŵp yn trefnu digwyddiad i ddathlu dengmlwyddiant y Ddeddf Teithio Llesol ddydd Mercher, 4 Hydref a fydd yn cynnwys taith gerdded a beicio i'r Senedd, gyda chyfres o ddigwyddiadau i ddilyn yn y Pierhead. Adroddodd ar ymdrechion i gynnwys hyrwyddo teithio llesol o fewn Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).

Adroddiad ariannol

Adroddodd y Cadeirydd fod holl weithgareddau'r Grŵp wedi cael eu gyflawni ar sail wirfoddol, ac o'r herwydd nid oedd gan y Grŵp unrhyw wariant ac nid oedd wedi derbyn, nac angen, unrhyw incwm.

Ethol Cadeirydd

Trosglwyddodd y Cadeirydd reolaeth o'r cyfarfod i'r Ysgrifennydd, a wahoddodd enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd. Cafodd Huw Irranca-Davies AS ei gynnig gan Phil Snaith a'i eilio gan Kaarina Ruta. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau pellach, ac etholwyd Huw yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Diolchodd i'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod am eu cefnogaeth ac ailgydiodd yn ei waith fel Cadeirydd.

Ethol Ysgrifennydd

Cafodd Chris Roberts ei gynnig gan Gwenda Owen a'i eilio gan Meryl James. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill, felly etholwyd Chris yn briodol.

Sesiwn holi ac ateb gyda Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Croesawodd y Cadeirydd y Dirprwy Weinidog i'r cyfarfod. Yn ei anerchiad agoriadol, datgelodd y Gweinidog y byddai 58 miliwn o gyllid yn cael ei gyhoeddi ar gyfer teithio llesol y diwrnod canlynol, a fyddai'n golygu bod Cymru'n gwario 50 gwaith cymaint y pen o'r boblogaeth â Lloegr. Diolchodd i'r Grŵp am eu gwaith ar yr adolygiad o'r Ddeddf a rhestrodd ei ymatebion i argymhellion yr adolygiad gan gynnwys: y Cynllun Cyflawni Teithio Llesol Newydd

a fyddai'n cael ei gyhoeddi'n fuan; roedd y gwaith ar hwb teithio llesol o fewn Trafnidiaeth Cymru, i ddarparu arbenigedd perthnasol yn mynd rhagddo; roedd y Bwrdd Teithio Llesol wedi cael ei ddiwygio ac wedi cael pwerau craffu newydd; byddai strwythur ariannu newydd yn cael ei sefydlu i flaenoriaethu newid moddol; byddai prosiect Tref Teithio Llesol newydd yn cael ei greu, a byddai adnoddau'n cael eu defnyddio arno i ddangos effeithiolrwydd mesurau teithio llesol wrth sicrhau newid moddol; a byddai gan Trafnidiaeth Cymru fwy o cyfrifoldeb am sicrhau newid ymddygiad.

Yn ystod cwestiynau i'r Dirprwy Weinidog, codwyd y materion allweddol a ganlyn:

Cynllunio – yng ngoleuni'r gofyniad newydd bod Active Travel England yn ymgynghori statudol ar geisiadau cynllunio mawr, beth ellid ei wneud yng Nghymru i sicrhau lefel gyfatebol o graffu? Yn y drafodaeth ar y mater hwn, canolbwyntiodd sylw ar broblemau gyda chymhwyso'r darpariaethau teithio llesol cadarnhaol ym Mholisi Cynllunio Cymru 11 yn effeithiol a chyfeiriwyd at nifer o enghreifftiau lle nad oedd Polisi Cynllunio Cymru yn cael ei ddilyn. Gofynnodd y Gweinidog i'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol ffurfio gweithgor i archwilio'r mater a chynnig atebion. Ymrwymodd i drafod materion penodol yng Nghaerdydd gyda Jenny Rathbone AS. Presgripsiynu Cymdeithasol - a ellid defnyddio mwy o deithio llesol, o ystyried ei fanteision sylweddol o ran iechyd? Roedd y gweinidog wedi cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i bwysleisio'r pwynt hwn, ac roedd eu swyddogion yn parhau â'r drafodaeth.

Hyrwyddo teithio llesol – Roedd y Gweinidog yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynhyrchu pecyn cymorth i hyrwyddo teithio llesol. Byddai teithio llesol hefyd yn rhan allweddol o'r ymgyrch newid ymddygiad newydd mewn ymateb i newid hinsawdd. Byddai ymgyrch bwysig i baratoi ar gyfer y cyfyngiadau 20 mya hyd at 17 Medi. O ran cynnwys hyrwyddo ym Mil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), roedd yn pryderu am osgoi hyrwyddo'r manteision sy'n gysylltiedig â theithio llesol i aer glân yn unig.

Asesiadau Trafnidiaeth a'r Isafswm Lefelau Parcio – mynegwyd pryder bod y rhain yn aml yn parhau i arwain at gymunedau sy'n seiliedig ar geir. Ymrwymodd y Gweinidog i ymchwilio i'r mater.

Beiciau ar fysiau – cytunwyd y dylai'r grŵp ymchwilio i'r materion dan sylw a threfnu trafodaeth lawn ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

Amharodrwydd rhai awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn teithio llesol - atgoffodd y Gweinidog y Grŵp bod ei adolygiad wedi galw am ffocws ar y cynghorau hynny oedd â'r ewylllys i weithredu mesurau teithio llesol ystyrlon yn effeithiol. Dylai ewylllys wleidyddol i roi newidiadau ar waith fod yn ffactor cryf wrth ddyrannu cyllid.

Monitro a gwerthuso – roedd Trafnidiaeth Cymru yn cwblhau fframwaith a fyddai'n rhoi arweiniad cryfach i awdurdodau lleol ynghylch monitro cynlluniau lleol er mwyn sicrhau bod modd cymharu'r canlyniadau. Cytunodd y Gweinidog y dylid rhannu'r fframwaith drafft gyda'r grŵp a'r Bwrdd Teithio Llesol.

Ymgysylltu ac ymgynghori – codwyd y cwestiwn ynghylch sut i roi polisiau ar waith, sy'n hanfodol i fynd i'r afael â newid hinsawdd a heriau eraill, pan oedd cymunedau lleol yn lleisio gwrthwynebiad i'r mesurau ymarferol, lleol yr oedd eu hangen ar y polisiau hynny. Soniodd y Gweinidog am bwysigrwydd arweinyddiaeth leol a'r angen iddynt fod yn barod i sefyll dros eu hegwyddorion. Roedd y cyfraniadau eraill yn awgrymu bod angen gwell cyfathrebu, cynnwys mesurau lliniaru yn yr opsiynau a gynigir a'r gwerth o gynnwys pobl ifanc mewn materion sy'n effeithio ar eu dyfodol.

Gofynnwyd i'r Gweinidog hefyd a fyddai'n bosibl sefydlu cynllun peilot e-feiciau yn y Cymoedd, ac atebodd gan ddweud fod y cynlluniau peilot yn dibynnu ar geisiadau addas yn cael eu cyflwyno.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Weinidog am ei ymatebion manwl a chynhwysfawr.

Arfer da o ran darparu teithio llesol: Cyflwyniad 'Developing a Whole Authority Approach to Active Travel' gan Paul Sullivan, Rheolwr Ieuenctid, Chwaraeon a Theithio Llesol yng Nghyngor Sir Fynwy.

Amlinellodd Paul sut roedd teithio llesol yn rhan annatod o Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 22-28 Sir Fynwy. Mae'r sir yn wledig yn bennaf, felly gwnaethant ganolbwyntio ar gysylltiadau o fewn y saith ardal ddynodedig. Yn 2020 roedd y cyfrifoldeb dros deithio llesol wedi cael ei symud o'r adran priffyrdd i MonLife a oedd yn rheoli gwasanaethau hamdden y sir yn bennaf. Roedd hyn wedi helpu i ddatblygu dull mwy cyfannol at deithio llesol gyda gwasanaethau ar draws y cyngor yn cymryd rhan yn y prosiect. Roedd ysgolion yn ffocws arbennig, gyda theithio llesol yn eitem barhaol ar y Grŵp Llesiant Addysg. Roedd holl ysgolion Sir Fynwy wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol. Erbyn hyn roedd gan y sir Swyddog Cynllun Teithio Ysgolion. Roeddent wedi mabwysiadu dull yn seiliedig ar ddata, gan osod cyfrifwyr i sefydlu gwaelodlinau. Roedd ganddynt strategaeth a oedd yn ymdrin â hyrwyddo teithio llesol yn fewnol ac yn allanol. Roeddent yn defnyddio ystod amrywiol o ymyriadau seilwaith gan gynnwys beicio gwrthlif, mwy o le i barcio beiciau, symud rhwystrau a chroesfannau â blaenoriaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i Paul am ei gyflwyniad ysbrydoledig a dywedodd y byddai'r sleidiau'n cael eu dosbarthu i'r holl aelodau. Anogodd awdurdodau lleol eraill i wirfoddoli i wneud cyflwyniad ar agwedd ar eu gwaith mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cofnodion y cyfarfod blaenorol: Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Unrhyw fater arall: Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm

Yn bresennol

Yn bresennol yn y cnawd			
Enw cyntaf	Cyfenw	Teitl swydd	Sefydliad
Joseph	Carter	Pennaeth y Gwledydd Datganoledig	Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
Ken	Evans	Cadeirydd	Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru
Ross	Evans	Rheolwr Materion Cymunedol a Chyhoeddus	YDCW
Huw	Irranca-Davies	Aelod o'r Senedd	Senedd Cymru
Meryl	James	Staff Cymorth Aelod	Julie Morgan AC
Rhiannon	Letman	Aelod	Llywodraeth Cymru
Phil	Lewis	Cadeirydd	Active Wheels
Hugh	Mackay		Cycling UK, Bro Morgannwg
David	Naylor		Wheelrights
Gwenda	Owen	Swyddog Ymgysylltu – Cymru	Cycling UK
Chris	Roberts	Ysgrifennydd	Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol
Kaarina	Ruta	Cynorthwydd Trafnidiaeth	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Phil	Snaith	Ysgrifennydd	Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin
Paul	Streets	Ysgrifennydd	Dinas Feicio Caerdydd
Yn bresennol trwy Teams			
Enw cyntaf	Cyfenw	Teitl swydd	Sefydliad
Madeleine	Boase	Prentis – Cymorth Teithio Llesol	Cyngor Dinas Casnewydd
Gillian	Brockley	Gweithiwr achos	Carolyn Thomas AS
Richard	Brunstrom		Cycling UK, Gogledd Cymru
Teresa	Ciano	Rheolwr Partneriaethau	GanBwyll, Diogelwch Ffyrdd Cymru
Richard	Dale	Pennaeth Datblygu Busnes	Casnewydd Fyw
Sian	Donovan	Cyfarwyddwr	Pedal Power
Donna	Edwards-John	Swyddog Teithio Llesol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Christine	Farr	Strategol Bro Morgannwg Tîm Llesiant	Cyngor Bro Morgannwg
Matthew	Gilbert	Arweinydd Teithio Llesol	Trafnidiaeth Cymru
Eleri	Griffiths	Polisi, Gwaith Achos ac Ymgyrchoedd Rheolwr	Heledd Fychan AS
Max	Hampton	Cynghorydd Dylunio	Comisiwn Dylunio Cymru
Alastair	Hopkins	Rheolwr Gwasanaeth (Trafnidiaeth)	Cyngor Dinas Casnewydd
Stephen	Hughes		Mott MacDonald
Josh	James	Rheolwr Materion Cyhoeddus	Living Streets
Phil	Jones	Cadeirydd	PJA
Richard	Keatinge	Ysgrifennydd	Beicio Bangor

Hannah	Little		Mott MacDonald
Dylan	Llewelyn Jones	Peiriannydd Grŵp, Strategol a Thrafnidiaeth Gynaliadwy	Sir Ynys Môn Cyngor
Gethin	Pearson	Teithio Llesol – Rheolwr Rhaglen	Casnewydd Fyw

Hannah	Peeler	Cydlynnydd Polisi a Materion Cyhoeddus	Sefydliad Prydeinig y Galon
Ian	Saunders	Prif Swyddog Gweithredu	MonLife, Cyngor Sir Fynwy
Caroline	Spanton	Prif Weithredwr	Beicio Cymru
Paul	Sullivan	Rheolwr Ieuenctid, Chwaraeon Rheolwr	MonLife, Cyngor Sir Fynwy
Alan	Tapp	Athro Marchnata Cymdeithasol	UWE
Beth	Taylor	Ymchwilydd i'r Grŵp	Ceidwadwyr Cymreig Grŵp
Will	Thomas	Cynghorydd	Dinas a Sir Abertawe
Duncan	Thompson	Swyddog cymorth prosiect teithio llesol	MonLife, Cyngor Sir Fynwy
Lee	Waters	Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd	Llywodraeth Cymru
Tom	Wells		Teithio Llesol Gorllewin Cymru

Ymddiheuriadau:

Christine Boston, Cyfarwyddwr, Sustrans Cymru

Stephen Cunnah, Rheolwr Polisi a Materion Allanol, Sustrans Cymru

Helen Donnan, Swyddog Maes Mynediad, Cymru, Cymdeithas Ceffylau Prydain

Francesca Howorth, Uwch Swyddog Ymchwil, Senedd Cymru

Keith Jones, Cyfarwyddwr, Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru

John Mather, Cycling UK (Gogledd Cymru)

Hilary May, Llwybrau Beic y Fro

John Sayce, Cadeirydd, Wheelrights

Mark Weston, Cyfarwyddwr Mynediad, Cymdeithas Ceffylau Prydain

